HG35.S 154

# MARWNAD,

NEU,

## Goffadwriaeth,

AM

## Y PARCHEDIG ISAAC PRICE,

YR HWN

A fu'n pregethu'r Efengyl 55 Mlynedd, ac a fu yn Weinidog yn Llanwrtyd a Llanhafan, 49 o flynyddau; ac yn yr Amser hynny yn gynnorthwyol yng Nghrygybar, 46 Mlynedd.

A ORPHENODD EI YRFA LAFURUS, 25 O CHWEFROR, 1805,

Yn 74 Oed.

Craff i ni'r dydd——gorphen ei daith,
Cyfaill trugarog, enwog ei waith.

*Gan Daniel Jones, Crygybar.*

Mae efe, wedi marw, yn llafaru etto.
Heb. 11, 4.

Canys byw i mi *yw* Crist, a marw *sydd* elw.
Phil. i, 21.

*Caerfyrddin,*
*Argraphwyd gan John Evans....1805.*

LW 2801
X2 0531364k

# Marwnad, &c.

I.

ARGLWYDD mawr rho ddawn i ganu,
I un ſy'n meddwl dechreu heddy',
A ſančteiddia fy ſerchiadau,
Hyn yw fy eirchion 'nawr wrth ddechreu;
Diſgwyl y buais rai wythnoſau,
Wel'd mewn print ac ar bapurau,
Fywyd hardd, gan ryw fardd,
Un fu yngardd Ieſu;
Ond er hyn 'does argoel i mi,
Nes wy'n awr yn mawr ryfeddu.

II.

Meiſtr PRICE, weinidog ffyddlon,
Sy wedi myn'd i wiſgo'r goron,
Fe fu yma yn llwyddiannus,
Amſer maith ymhlith yr eglwys;
Ond dyma'r newydd, fe'n gadawodd,
Ac aeth at yr hwn a'i galwodd,
I blith y llu ſy'n hwylus fry,
Heb ofid na gwaſgfa,
O fewn i'r dawel hardd breſwylfa,
Yn ſeinio yn hwylus Haleluia.

III.

Fe deimlodd rym effeithiol alwad,
Yn y bore gan ei Geidwad,
Ac fe'i dygwyd ef i'r winllan,
Yn ddwy ar bymtheg llawn o oedran;
Hynod oedd ei droedigaeth,
Medd pawb oddi amgylch ei gym'dogaeth,
Fe glywodd e', yn ddible,
Lais o'r ne'n dywedyd,
"Tydi wyt blentyn yr addewid,
Ac mi a'th wnaf yn ffrwythlon hefyd."

IV.

IV.

Yn bymtheng mlwydd a phedair hefyd,
Fe bregethai Grist yn hyfryd,
Ar ben y 'stolau, ac mewn pulpidau,
Crist oedd swm ei holl bregethau;
Cyhoeddai'n hy o flaen y werin,
Fod Crist yn Graig mewn 'stormydd gerwin,
    Cymhellai fe, bawb heb ble,
    Mewn gwlad a thre i ddyfod,
I'r diogelwch cyn y gafod,
A llwyr ffarwelo â phob eulunod.

V.

Yn y bore fe fu'n ddiwyd,
I draethu geiriau mawr y bywyd,
Ac eilwaith ar ganol ddydd gwresog,
Fe flodeuodd yn odidog;
'Roedd yn aml iawn ei ffrwythau,
Yn arogli'n ber lle byddai;
    Aeddfwyn iawn, foreu a nawn,
    Yr oedd e'n llawn tangnefedd,
Fe wnaeth i gannoedd fawr ymgeledd,
Bod yn dirion oedd ei duedd.

VI.

Nid oedd ef byth yn caru ymryson,
Na chwaith ymddadleu â neb rhyw ddynion,
Cariad oedd ei wir ddymuniad,
I lenwi'r byd dan haul a lleuad;
Zel bartiol byth ni charai,
Ei gwel'd yn ennyn mewn neb enwau,
    Derchafu'r O'n, fyddai dôn,
    Ei boen fyddai ymryson,
Cawn ganu ffarwel wag ddadleuon,
Pen gronyn bach ar fynydd Sion.

VII.

Aml byddai yn pregethu,
Ymhlith Methodistiaid Cymry,

Gyd â'r Baptiſt yr oedd e'r un modd,
Yn dyrchafu Brenin nefoedd;
Fe bregethai'r gwir yn gywir,
Mewn mawr zel a chyflawn ſynwyr,
Mewn tre a gwlad heb naccad,
Ac fe fu'n dad i gannoedd,
Fe aeth ugeiniau o'i flaen i'r nefoedd,
Rai ar ei ol ymhell ddechreuodd.

VIII.

Ef ei hunan aeth o'r rhyfel,
Uwch y llawr mae'n awr yn dawel,
Ac am hyn mae llu'n galaru,
Yn eglwyſi tlodion Cymry;
'Roedd ei athrawiaethau melus,
Fel yr olew i'r rhai clwyfus,
Fe ddodai ma's gyd â blas,
Yr addas gymmwyſderau,
Sydd yn Ieſu yr hwn a'n prynai,
I wella'n holl afiachus glwyfau.

IX.

Fe fagodd amryw weinidogion,
Yn ei eglwyſi yn dra ffyddlon,
Mae rhai yn y De a rhai yn y Gogledd,
A'r rhei'ny oll yn llwyddo'n rhyfedd,
A Dafydd Williams, yntau alwyd,
Ac yn Llanwrtyd fe'i hordeiniwyd,
Fe'i rhoddwyd e', gan Frenin ne,
Mae cyflawn le i gredu,
Mawr a rhyfedd mae'n cynnyddu,
Waith iddo dderbyn Yſpryd Ieſu.

X.

Fe ddywedai Price cyn marw,
Fod Criſt yn rhan ac angau'n elw,
A dyma'r teſtyn a orchymynodd,
I bregethu yn ei anglodd,
A Meiſtr Davies wych o Sardis,
A bregethodd arno'n hwylus,

Nes

Nes oedd y lle yn llawn o'r ne',
A'r dynion yn dyrchafu
Crist am roddi ei gw'mpeini,
Wrth roddi tad mewn bedd i bydru.

XI.

Yn Llanwrtyd a Llanhafan,
Welai byth o'i wyneb weithian,
Crygybar a Merthyr Cynnog,
Lle bu ugeiniau o weithiau'n gefnog;
I Benhernwen, os af etto,
Welai mwy mo'i wyneb yno,
Mi edrycha i'r ne', mi gwela fe,
O fewn i'r lle disglair,
Bar'towyd gan Iesu ar ei gyfer,
Lle bydd y plant eu gyd ar fyrder.

XII.

Un fil cymmwys o flynyddau,
A rhifo at hynny wyth o gantau,
Pump yn rhagor attynt etto,
Oedd oedran Crist pan aeth i huno,
Yn bedair blwydd ar ddeg a thrugain,
Rhowd ef i orwedd yn y ddae'ren,
Ei enaid e', aeth i dre,
I'r Ganaan, le tawel,
Yn Llanwrtyd mai gorph mewn grafel,
Ffarwel mwyach wlad y rhyfel.

XIII.

Meistr Price, Pen-pont-ar-ogwd,
Ganddo'n anwyl iawn a fagwyd,
Cym'rwch gysur, chwi gewch etto,
Ar fyr o dro i fyned atto,
Price Penhernwen yr un ffunud,
Manwl chwiliwch am y bwyd;
'Mofynwch 'nawr, fach a mawr,
Am Grist cyn awr angeu,
Er dim na byddo'r olew'n eisiau,
Gan neb o'i anwyl hoff berth'nasau.

XIV.

XIV.

Betty Price, ei ferch trwy'r gyfraith,
Buoch iddo yn dirion fammaeth,
Er ei fod yn hir yn afiach,
Ni chlyw'd mo Betty Price yn grwgnach,
Mae'n ficr iawn cewch eich gwobrwyo,
Gan Iefu eich Priod pan y delo
Ar gwmmwl fry gyd â'r llu,
Rai fy'n gorfoleddu,
Cawn gwrdd o'r bron yn llon â'r cwymp'ni,
A Meiftr Price yn un o'r rhei'ny.

XV.

Yr oedd ganddo amryw ugeiniau,
Yn ei ftudy lân o lyfrau,
Aml byddai'n eu darllen,
Nid trwy orfod ond trwy elfen,
Sam. Price etto, ei ŵyr yntau,
Cofia ddilyn yr un llwybrau;
Gweddio'n da'r, troch ar y dda'r,
A hyn a bar ich' lwyddo,
I lanw ei le fe, Duw a'ch dygo,
Ac o'r diwedd gael myn'd atto.

XVI.

Ni fedraf ddweud faint ei ddedwyddwch,
Na'i fraint heddyw yngwlad yr heddwch,
Mae'n canu caniad newydd yno,
O fawl i'r Oen fu farw drofto;
Mae heddyw'n meddu gwir ddiddanwch,
Gyd â duwolion mewn dedwyddwch,
Ei enaid fry, gyd â'r llu,
O fewn i'r tŷ tawel,
'Nawr oddi yma wedi 'madael,
A rhoi ffarwel i wlad y rhyfel.

XVII.

Pe gwelwn Price, er nad oes galwad,
Mi ofynwn iddo ofyniad,
Pa beth yw'r cyngor a gawn i ganddo,
Oddi amgylch Crygybar a Chayo?

Mi dybygwn ei fod yn dywedyd,
'R un geiriau heddy' ac yn ei fywyd,
    Am ddo'd ymla'n trwy ddw'r a thân,
    A chongcro'n lân elynion,
Byw bywyd sanctaidd oll yn gyson,
Nes cwrdd a'n gilydd fry yn Sion.

XVIII.

A oes mawr lawenydd yna,
Am y llwyddiant 'nawr sydd yma?
A ydyw'r Tad, y Mab a'r Ysprydd,
Yn gorfoleddu draw'n y bywyd?
Mi dybygwn clywai'n atteb,
Yn rhyw le draw yn nhragywyddoldeb,
    Gan ddweud y mae yn awr heb lai,
    Yn ddiau lawenydd,
Trwy'r holl nefoedd am y cynnydd,
Sy yn yr eglwys trwy'r holl wledydd.

XIX.

Ond fe rifwyd yn yr arfaeth,
Fwy i gael y fuddugoliaeth,
Ag sydd etto raid eu galw,
A gofiwyd gan y Cyfion hwnnw;
Ar fyr fe dorrir rhwydau'r diafol,
Myn Iesu'n rhydd ei rasol bobol,
    Yn y man, hwy ddont i'r lan,
    I'r hyfryd fan hynod,
I gael byw byth gyd â'u Priod,
A meddu gwledd mewn hedd heb ddarfod.

XX.

Ffarwel bellach, dad anwyla,
'Dwy'n dyall fawr am dani yna,
Ond 'rwyf weithiau'n gwan obeithio,
Caf fi yn landeg yna landio,
Ac os dof i blith y dyrfa,
Sy'n hwylus ganu Haleluiah;

Mi

Mi greda'n awr ar y llawr,
Mae mawr fydd y canu,
Ac y rhoir y clod i gyd i'r Iesu.
Mi ddywedaf mwy, Amen, am hynny.

# Hymn.

I.

GWRANDEWCH fy holl gyfeillion,
Sy gennyf yn y byd;
Mae gennyf lais tu ag attoch,
Ni's gallaf fod yn fud;
Mae'r byd yr ydych ynddo,
Yn gyfnewidiol iawn,
Er harddeed y'ch chwi'r boreu,
Chwi wiwwch y prydnhawn.

II.

Trowch, trowch i'r amddiffynfa,
Cyn myned lawr i'r pridd,
Fel byddo chwi cadwedig,
Pan ddelo'r tanllyd ddydd;
Goheithiol i chwi heddyw,
Ond foru pwy fydd byw?
O llefwch am y fendith,
Yn awr yw amser Duw.

III.

Ar fyrder fe ddaw angeu,
I daro'ch tŷ i lawr,
O! llefwch am gymhwylder,
I fyn'd i'r fiwrnai fawr;
Fel y galloch waeddi allan,
Yng wyneb angeu du,
Fod marw yn hyfryd elw,
A Christ yn eiddo i chwi.

CARDIFF PUBLIC LIBRARIES